# YSGOL GYMRAEG GWENFFRWD     TYMOR Y GWANWYN 2016

**Llythyr 1 / Letter 1     25/01/2016**

**Annwyl Rieni / Dear Parents;**

**Diwrnod Santes Dwynwen hapus i chi!**
**Blwyddyn Newydd Dda hefyd- gan mai dyma'r llythyr ysgol ffurfiol cyntaf o 2016- er eich bod wedi derbyn nifer o lythyrau ynglyn a gweithgareddau Sioe Plant yr Urdd, digwyddiadau'r GrhA a chlybiau ar ol 'rysgol.**

**A Happy Santes Dwynwen Day to you all.**
**Also- a Happy New Year- as this is the first formal school letter of 2016- even though letters have been circulated regarding the Urdd Children's Evening Show/ Performance/ PTA activities and after-school club sessions etc.**

| | |
|---|---|
| 1. Cofiwch o.g.y.dda-<br>• Nos Iau 28/1 am 4.30yh- DISGO'r Grha A yng Ngwenffrwd<br>• Nos Iau am 7 yh- Cyfarfod cefnogi Ysgol Mornant yn Ysgol Glanrafon<br>• Nos Lun Chwef 1af am 6yh: Cyfarfod Blynyddol y GrhA yng Ngwenffrwd | 1. Please remember:<br>• Thursday 28/1- PTA Disco at Ysgol Gwenffrwd 4.30-6pm<br>• Thursday 28/1 at 7pm- meeting to support Ysgol Mornant at Ysgol Glanrafon Mold- please try to support!<br>• Monday Feb 1st at 6pm PTA's Annual Meeting. |
| **2. LLONGYFARCHIADAU MAWR i Rhys Roberts Bl 6 a Georgia Wade-Jones Bl 4 am gynrychioli Ysgol Gwenffrwd yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd dros y Sul- rydym yn diolch i chi ac yn falch iawn o'ch llwyddiant a'ch talent arbennig.**<br>***Hefyd, i Erin Roberts Bl 6 am ennill gwobr goffa Meirion Griffiths am ysgrifennu traethawd am fywyd a gwaith Thomas Pennant.*** | **2. MANY CONGRATULATIONS to Rhys Roberts Bl.6 and Georgia Wade-Jones Bl. 4 for representing Gwenffrwd at the Urdd All-Wales National Swimming Championships at Cardiff over the weekend. We thank you-and are proud of your achievements and talent.**<br>***Also, to Erin Roberts Yr 6 for winning the Meirion Griffiths Memorial award for her written essay on the life and work of Thomas Pennant.*** |
| ❖ Dyddiadau Eisteddfodau'r Urdd:<br>CYLCH Sadwrn Mawrth 5ed<br>SIR Sadwrn Mawrth 19eg | ❖ Please note the URDD eisteddfod dates<br>CYLCH/ 1st round-local: Saturday March 5th 2016 at Ysgol Gwynedd Flint<br>SIR/COUNTY eisteddfod- Saturday March 19th 2016 |
| ❖ Dyddiadau Nosweithiau Rhieni<br>Dydd Mawrth, Mawrth 8fed<br>Dydd Mercher, Mawrth 9fed | ❖ Dates for Parents' Evenings<br>Tuesday, March 8th<br>Wednesday March 9th |

**Diolch yn fawr.**

*Yn gywir / Sincerely*
*M. Iola Owen (Pennaeth / Headteacher)*

**Neges gan GORFF LLYWODRAETHOL  YSGOL GWENFFRWD**
**A message to Parents from Gwenffrwd's Governing Body:**

# POLISI PRESENOLDEB / ATTENDANCE POLICY

*Llythyr i rieni i esbonio ein polisi ;  A letter to parents to explain our policy*

**Annwyl Rieni;            Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar bwysigrwydd presenoldeb disgyblion ac mae'r data hwn yn un elfen werthuso sy'n cyfrannu at 'fandio' safonau'r ysgol i'r gymuned leol ac ehangach.  Targed cyfredol Ysgol Gwenffrwd yw 96%. Mae Huw Lewis-Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru wedi datgan mai'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr sydd i roi/wrthod caniatad i rieni i fynd â'u plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor-am hyd at 10 niwrnod mewn blwyddyn.**
**Mewn perthynas a'n targed ysgol o 96% a'n nôd o sicrhau safonau da bob amser, dyma bolisi Ysgol Gwenffrwd:-**

Credwn yn Ysgol Gwenffrwd fod rhaid i blant fynychu ysgol yn rheolaidd os ydynt am ddysgu'n effeithiol.  Mae'n bwysig fod plant yn cyrraedd a gadael yr ysgol ar amser.  Mae'n bwysig hefyd, nad yw plant yn yr ysgol os nad ydynt yn iach.

Mae Ysgol Gwenffrwd yn ysgol hapus.  Mae plant yn dysgu orau pan eu bod yn hapus ac wedi ymlacio. Rydym yn cefnogi Llês Emosiynol yng Ngwenffrwd.

Os yw plentyn yn sâl fe ddylai'r rhieni hysbysu'r ysgol am hyn cyn 9yb ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb o.g.y.dda (neu anfon nodyn gyda brawd/chwaer).
Mae pob cyfnod o asenoldeb yn cael ei fonitro'n ofalus.

Mae Llywodraethwyr Gwenffrwd yn gofyn i rieni BEIDIO â thynnu eu plant allan o'r ysgol yn ystod tymhorau'r ysgol.  Mae hyn er llês y plant.   Fodd bynnag, deallwn fod achosion ar brydiau lle na all rhieni osgoi hyn- ac i'r perwyl hwn, rydym am weithio gyda rhieni,gydag amodau rhesymol.
Petai rhieni am dynnu eu plant allan o'r ysgol ar adeg /yn ystod tymor yr ysgol i fynd ar drip/gwyliau- yna mae'n rhaid i'r rhieni ysgrifennu llythyr at y Pennaeth, gan nodi'r cais, y dyddiadau a gofyn am ganiatad.  Nid oes caniatad awtomatig i neb.  Bydd yr Uwch Dîm Arwain a'r Corff Llywodraethol yn ystyried pob cais arwahan, gan ystyried y ffactorau hyn:-

i) beth yw canran presenoldeb presennol y disgybl dan sylw?
ii) faint o amser y gofynnir amdano (allan o'r ysgol) a sut fydd hyn yn effeithio ar ganrannau y plentyn yma wedyn?

Os oes gan y plentyn ganran uchel o bresenoldeb, yna bydd gwyliau yn gallu cael eu caniatau ar sail na fydd hyn yn effeithio targed a chanrannau'r ysgol, nag addysg y plentyn dan sylw.  Fodd bynnag, os yw'r plentyn eisoes wedi colli gormod o ysgol- gan effeithio ar ei addysg ef/hi, yna bydd y cais yn cael ei wrthod.  Petai'r rhieni wedyn yn anwybyddu ymateb y Llywodraethwyr ac yn tynnu eu plant allan o'r ysgol- yna bydd hyn yn cael ei gofnodi fel Absenoldeb Di-Awdurdod.  Unwaith mae canran plentyn yn disgyn at drothwy  80% -yna bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau Sir y Fflint ac yn cyfeirio'r achos yn gyfreithiol.
** Nid yw'n ddoeth i rieni wneud cais o gwbl i dynnu eu plant allan o'r ysgol yn ystod cyfnod profion ac cenedlaethol a chyfnod 'cloi' asesiadau athrawon - Ebrill a Mai.  Mae mis Medi hefyd yn adeg hanfodol bwysig i bob plentyn fod yn bresennol- i ymgodymu gyda'i ddosbarth/athrawon a themau newydd ar gyfer y flwyddyn addysgol.

Mae systemau monitro ysgol Gwenffrwd yn rhannu gwybodaeth gyda holl rieni'r ysgol, am bresenoldeb cyfredol eu plant drwy system 'Goleuadau Traffig' a rennir ar ein Nosweithiau Rhieni

bob Hydref a Gwanwyn.  Nodir canrannau presenoldeb pob disgybl ar eu hadroddiad diwedd blwyddyn addysgol.  Mae'r UDA a'r Llywodraethwr enwebiedig (Prof. R Moore) yn cynnal cyfarfodydd gyda'r rhieni- lle mae presenoldeb eu plant yn llithro- er mwyn sicrhau fod pob rhieni yn ;-

i) deall y polisi
ii) deall eu cyfrifoldeb fel rhieni
iii) deall yr oblygiadau sydd o beidio cydweithio gyda'r ysgol

Atgoffir y rhieni o'r polisi hwn yn Adroddiad y Llywodraethwyr i'r Rhieni yn flynyddol. Ynghlwm â'r monitro hwn- bydd rhai rhieni yn derbyn llythyron/galwadau ffôn i'w hannog i sicrhau fod eu plant yn yr ysgol ar amser- pawb i fod ar y buarth CYN y gloch 8.55yb.  Ni ddylai yr un plentyn fod yn dod i mewn i'r ysgol drwy'r brif fynedfa yn y bore.

Mae gweithredu'r polisi hwn yn rhan o ddisgwyliadau uchel Ysgol Gwenffrwd ar gyfer ein teuluoedd- er sicrhau safonau da ymysg ein disgyblion.  Diolchwn i rieni am eu cydweithrediad.

**ATTENDANCE POLICY – English version**

**Dear Parents; The Welsh Government puts great emphasis on the importance of pupils' attendance at schools.  This is so important- that it is a relevant and prominent factor considered when schools are 'banded' in accordance with standards. This data is continually shared with the school's local community and in All-Wales performance data .  Ysgol Gwenffrwd's present attendance target is 96%.  The WG's Education Minister, Huw Lewis, has recently announced that Headteachers and Governors of individual schools are responsible for giving/ refusing permission for parents to take pupils out of schools on holidays / visits during term times (for up to 10 days per year).**
**In relation to Ysgol Gwenffrwd's target of 96% and our constant aim of securing good standards, please see our Attendance Policy as follows:-**

We believe, at Ysgol Gwenffrwd, that all children should attend school regularly if they are to become effective learners.  It is extremely important that children arrive at school on time, and have consistent end of day procedures also.  If a child is ill, then he/she should not be at school.

Ysgol Gwenffrwd is a happy school.  Children learn best when they are happy and relaxed.
We support Emotional Wellbeing at Gwenffrwd.

When a child is ill, the Governing Body advise parents to contact shool by 9am to inform the teaching staff- or send in a note with a sibling- on the first morning of absence please.
All absences are closely monitored.

Gwenffrwd Governors ask parents NOT to take their child/ ren out of school during term times.
This is for the benefit of the child /ren.
However, Governors understand that there are occasions when parents cannot avoid term time dates- and therefore, Governors wish to work with parents within a framework that is open, reasonable and fair .

If parents wish to take their children out of school during term time, then they must write a letter of request to the Headteacher,  The Headteacher works with the Senior Leadership Team and the Governor responsible for monitoring attendance (Prof. Robert Moore).  The letter should state the request/ dates etc and ask permission.
There is no automatic permission given.

All requests will be discussed on an individual basis. These are the factors that will be considered:-

i) what is the current attendance % for this child?
ii) how much time out of school is this request for- and how will this impact on the child's attendance % ?

If the child has a high attendance % the the holiday may be approved-as this will not affect the child's personal target of 96% , the school's attendance records or the child's overall learning opportunities. However, if the child's record shows that he/ she has already missed too many school sessions, and that more time absent from class would have a detrimental effect on learning/ attendance targets etc, then the request may be refused.
If parents ignore the decision made by the SLT and Governing Body, by taking their children out of school without permission, this will be recorded as Unauthorised Absence.
Once the child's attendance record falls to FCC's threshold of 80% then we will follow FCC guidelines and refer to the legal authorities.

**It is not wise for parents to request that their children miss school during National testing and final teacher assessment timscales-during April & May.
Also- September is a crucial month to be present at school, when new routines/classess/teachers/themes are embedded in preparation for the new school year..

As part of our monitoring procedures, attendance information is shared with parents (through our 'traffic lights' systems ) during 'parents' Evenings' (Autumn & Spring). All pupils have their attendance noted on their end of year school reports.
Parents will be called in to 'Attendance Monitoring meetings' with the SLT members and Governor in charge of Attendance (Prof. Robert Moore) - to discuss attendance issues when their child's attendance is 'slipping'. These meetings are to ensure that parents;-

i) fully understand the policy
ii) understand their responsibility as parents
iii) " " the implications of not co-operating with the school

Parents are reminded of this policy on a yearly basis, through the Governors' Report to Parents.
As part of this monitoring process, some parents will receive letters/ phone-calls asking them to ensure that their children arrive in school on time every morning- before the morning bell at 8.55am (where all pupils should be on the yard). No children should be entering the school through the Main Reception area in the morning..

This policy demonstrates the high expectations Gwenffrwd Governors have for our families, and also reflects the good standards within our school.
We thank parents for working with us on this important issue.

Adolygwyd / Reveiwed Jan. 2016

***Yn gywir / Sincerely***

***Howard Jones***
***Cadeirydd / Chair***